OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2539 (Cy.278)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012

*Gwnaed - - - - 2 Hydref 2012*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 8 Hydref 2012*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(3)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 8(1)(a), 8(2) a 50(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**1**), a hwythau wedi ymgynghori â'r personau hynny y mae adran 8(3) o'r Mesur hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori â hwy, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012.

(2) Dim ond i awdurdodau gwella Cymreig sy'n gynghorau sir ac sy'n gynghorau bwrdeistref sirol ("awdurdodau lleol") y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Tachwedd 2012 ac mae'n gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2013 a'r blynyddoedd ariannol dilynol.

(4) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dangosyddion perfformiad

**2.** Pennir y dangosyddion perfformiad ym mhob Atodlen i'r Gorchymyn hwn at ddiben adran 8(1) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(1) mewn perthynas â'r swyddogaethau y rhoddir manylion amdanynt yn y briod Atodlen.

### Dirymu ac Arbed

**3.** Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad) (Cymru) 2010(**2**) wedi ei ddirymu ond mae'n parhau i fod yn effeithiol i'r graddau y mae'n gymwys

(**1**) 2009 mccc 2.
(**2**) O.S. 2010/482 (Cy.51).

i'r Dangosyddion Perfformiad a'r Safonau Perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2012.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

2 Hydref 2012

## ATODLEN 1

Erthygl 2

### DANGOSYDDION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Dangosydd | Indicator |
|---|---|---|
| **DP 1/ PI 1** | Canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion lle y mae'r risg wedi ei rheoli. | The percentage of adult protection referrals where the risk has been managed. |
| **DP 2/ PI 2** | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn. | The percentage of children looked after on 31 March who have had three or more placements during the year. |
| **DP 3/ PI 3** | Canran y plant 16/17 oed wedi eu targedu sydd â chynllun llwybr. | The percentage of targeted 16/17 year old children with a pathway plan. |
| **DP 4/ PI 4** | Canran y plant y mae gweithwyr cymdeithasol yn eu gweld ar eu pennau eu hunain wrth eu hasesu. | The percentage of children who are seen alone by social workers at assessment. |
| **DP 5/ PI 5** | Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd. | The rate of delayed transfers of care for social care reasons per 1,000 population aged 75 or over. |
| **DP 6/ PI 6** | Cyfradd;<br>(a) y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth;<br>(b) y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. | The rate of;<br>(a) older people (aged 65 or over) supported in the community per 1,000 population aged 65 or over at 31 March;<br>(b) older people (aged 65 or over) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over at 31 March. |
| **DP 7/ PI 7** | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd | The percentage of looked after children at 31 March who have experienced one or more changes of school during a period or periods of being looked after, which were not due to transitional |

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Dangosydd | Indicator |
|---|---|---|
| | trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | arrangements, in the 12 months to 31 March. |
| **DP 8/ PI 8** | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw leoliadau dysgu a gynhelir gan awdurdod lleol. | The average external qualifications point score for 16 year old looked after children in any local authority maintained learning settings. |
| **DP 9/ PI 9** | Canran;<br>(a) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed;<br>(b) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed;<br>(c) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed. | The percentage of;<br>(a) young people formerly looked after with whom the authority is in contact at the age of 19;<br>(b) young people formerly looked after with whom the authority is in contact, and at the age of 19 who are known to be in suitable non-emergency accommodation;<br>(c) young people formerly looked after with whom the authority is in contact, and at the age of 19 who are known to be engaged in education, training or employment. |

ATODLEN 2

Erthygl 2

DANGOSYDDION TAI

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Dangosydd | Indicator |
|---|---|---|
| **DP 10/ PI 10** | Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf. | The percentage of all potentially homeless households for whom homelessness was prevented for at least 6 months. |
| **DP 11/ PI 11** | Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | The average number of calendar days taken to deliver a Disabled Facilities Grant. |

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Dangosydd | Indicator |
|---|---|---|
| **DP 12/ PI 12** | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. | The number of additional affordable housing units provided during the year as a percentage of all additional housing units provided during the year. |
| **DP 13/ PI 13** | Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. | The percentage of private sector dwellings that had been vacant for more than 6 months at 1 April that were returned to occupation during the year through direct action by the local authority. |

## ATODLEN 3

Erthygl 2

## DANGOSYDDION ADDYSG

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Dangosydd | Indicator |
|---|---|---|
| **DP 14/ PI 14** | Canran y disgyblion a asesir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd, fel y'i penderfynir gan Asesiadau Athrawon. | The percentage of pupils assessed at the end of Key Stage 2, in schools maintained by the local authority, achieving the Core Subject Indicator, as determined by Teacher Assessment. |
| **DP 15/ PI 15** | Canran y disgyblion a asesir, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. | The percentage of pupils assessed, in schools maintained by the local authority, receiving a Teacher Assessment in Welsh (first language) at the end of Key Stage 3. |
| **DP 16/ PI 16** | Canran y disgyblion 15 oed ar yr 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg. | The percentage of pupils aged 15 at the preceding 31 August, in schools maintained by the local authority who achieved the Level 2 threshold including a GCSE grade A*-C in English or Welsh first language and mathematics. |
| **DP 17/ PI 17** | Canran: | The percentage of: |

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Dangosydd | Indicator |
|---|---|---|
| | (a) yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); a<br>(b) y disgyblion sydd yng ngofal awdurdod lleol,<br>sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar yr 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd. | (a) all pupils (including those in local authority care); and<br>(b) pupils in local authority care,<br>in any local authority maintained school, aged 15 at the preceding 31 August who leave compulsory education, training or work-based learning without an approved external qualification. |
| **DP 18/ PI 18** | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar yr 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | The average point score for pupils aged 15 at the preceding 31 August, in schools maintained by the local authority. |
| **DP 19/ PI 19** | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir ymhen 26 o wythnosau;<br>(a) gan gynnwys eithriadau; a<br>(b) heb gynnwys eithriadau. | The percentage of final statements of special education needs issued within 26 weeks;<br>(a) including exceptions; and<br>(b) excluding exceptions. |

## ATODLEN 4

Erthygl 2

## DANGOSYDDION RHEOLI GWASTRAFF

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Dangosydd | Indicator |
|---|---|---|
| **DP 20/ PI 20** | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a baratoir ar gyfer ei ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall. | The percentage of municipal waste collected by local authorities and prepared for reuse and/or recycled, including source-segregated biowastes that are composted or treated biologically in another way. |
| **DP 21/ PI 21** | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi. | The percentage of municipal waste collected by local authorities sent to landfill. |

| **Rhif y Dangosydd/ Indicator Number** | **Dangosydd** | **Indicator** |
|---|---|---|
| **DP 22/ PI 22** | Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddir gwybod amdanynt ac y clirir y gwastraff ymhen 5 niwrnod gwaith. | The percentage of reported fly tipping incidents cleared within 5 working days. |

ATODLEN 5 Erthygl 2

DANGOSYDDION TRAFNIDIAETH

| **Rhif y Dangosydd/ Indicator Number** | **Dangosydd** | **Indicator** |
|---|---|---|
| **DP 23/ PI 23** | Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sydd â cherdyn teithio rhatach ar y bws. | The percentage of adults aged 60 or over who hold a concessionary bus pass. |

ATODLEN 6 Erthygl 2

DANGOSYDDION DIWYLLIANT A CHWARAEON

| **Rhif y Dangosydd/ Indicator Number** | **Dangosydd** | **Headline indicator** |
|---|---|---|
| **DP 24/ PI 24** | Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. | The number of visits to local authority sport and leisure centres during the year per 1,000 population, where the visitor will be participating in physical activity. |
| **DP 25/ PI 25** | Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth. | The number of visits to public libraries during the year per 1,000 population. |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu, ar gyfer Cymru, ddangosyddion perfformiad y cyfeirir atynt wrth fesur perfformiad cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, o 1 Ebrill 2013 ac mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol dilynol. Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/482 (Cy.51)).

Drwy gyfeirio at yr Atodlenni, mae erthygl 2 yn nodi pa ddangosyddion perfformiad a ddefnyddir i fesur perfformiad pa swyddogaethau.

Mae Atodlenni 1 i 6 yn rhoi manylion am y dangosyddion perfformiad rhagnodedig ar gyfer y gwahanol swyddogaethau fel a ganlyn:

Atodlen 1 Dangosyddion Gwasanaethau Cymdeithasol

Atodlen 2 Dangosyddion Tai

Atodlen 3 Dangosyddion Addysg

Atodlen 4 Dangosyddion Rheoli Gwastraff

Atodlen 5 Dangosyddion Trafnidiaeth

Atodlen 6 Dangosyddion Diwylliant a Chwaraeon